Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd** : | Swyddog Celfyddydol Cymunedol Caerdydd a'r Fro | **Lleoliad** : | Gwersyll yr Urdd, Caerdydd |
| **Adran** : | Ieuenctid a Chymuned | **Cyflog** : | Graddfa 4: £29,409 - £31,430 y flwyddyn |
| **Oriau Gwaith** : | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | **Cytundeb** : | Tymor penodol, 12 mis |
| **Yn adrodd i** : | Rheolwr Cymunedol De Cymru | **Rheolaeth Llinell** : | Na |

**Prif bwrpas y swydd**:

Prif bwrpas y swydd yw cynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc y rhanbarthau mewn cyfleoedd Eisteddfod yr Urdd a'r Celfyddydau drwy'r Urdd. Gan weithio ar sail tystiolaeth, bydd y Swyddog yn gyfrifol am gynyddu nifer yr ysgolion a cholegau addysg pellach sy'n cymryd rhan yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth, yn ogystal â denu aelodau i gymryd rhan yng ngweithgareddau celfyddydol ehangach y rhanbarthau, megis Theatr Ieuenctid, Jambori, Gigs Ieuenctid ac ati.

Bydd y Swyddog yn arwain ar ddylunio a darparu gweithgareddau cymunedol a chelfyddydol amrywiol a chynhwysol o fewn y rhanbarth, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn adlewyrchu ac yn ymateb i anghenion plant a phobl ifanc yr ardal.

Bydd disgwyl hefyd i'r Swyddog greu a gweithredu cynllun rhanbarthol o wirfoddolwyr i gefnogi gweithgarwch yr Urdd yn y siroedd.

---

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau**:

<u>Eisteddfod</u>

1. Denu ysgolion cynradd, uwchradd a cholegau newydd i gystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth drwy drefnu ymweliadau a chreu perthnasau gyda athrawon.
2. Cynllunio a threfnu holl agweddau'r Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth yn yr ardal.
3. Trefnu cystadlaethau Celf a Chrefft, PobUrdd a ChogUrdd.
4. Cefnogi'r Pwyllgorau Cylch / Rhanbarthau i drefnu Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth ar y Pwyllgorau hyn.
5. Cefnogi'r digwyddiadau lleol pan fu Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y rhanbarth.
6. Cyfrifoldeb dros brosiectau penodol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, gan gydweithio gydag Adran y Celfyddydau i gynnal gŵyl ieuenctid fwyaf Ewrop.
7. Sicrhau cyfleoedd perfformio i grwpiau newydd neu wedi eu tangynrychioli yn y

celfyddydau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Cymunedol a Chelfyddydol

8. Mapio darpariaeth celfyddydol y rhanbarth, i ddarganfod y bylchau lle gellid llunio amserlen o weithgareddau addas i ateb anghenion plant a phobl ifanc.
9. Sefydlu ac/neu sicrhau parhad adrannau ac aelwydydd o fewn y rhanbarth.
10. Cydlynu amserlen o weithgareddau celfyddydol yn ystod cyfnodau gwyliau'r ysgol i blant a phobl ifanc gan gynnwys gweithdai a teithiau.
11. Cefnogi cynlluniau strategol trawsadrannol a chenedlaethol sydd yn ehangu gorwelion celfyddydol plant a phobl ifanc.

Gwirfoddoli

12. Sefydlu rhwydwaith lleol o wirfoddolwyr o bob oed i gefnogi holl weithgarwch yr Urdd o fewn y Rhanbarth.
13. Annog pobl ifanc i wirfoddoli, trwy gynnig cyfleoedd, hyfforddiant, cefnogaeth a phrofiadau.

Arall

14. Cyfrifoldeb dros gyrraedd y targed ariannol rhanbarthol a osodir gan y Cyfarwyddwr.
15. Cyflwyno ceisiadau ariannol i gynnal gweithgareddau yn rhanbarthol a chodi nawdd i'r Eisteddfodau lleol.
16. Cefnogi a Staffio Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd yn ôl y galw.
17. Hyrwyddo, cefnogi a chydweithio ar brosiectau Rhyngwladol yn ôl y galw.

---

**Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| **Hanfodol**: | **Dymunol**: |
|---|---|
| 1. Diddordeb ac / neu brofiad yn ymwneud â gwasanaethau Celfyddydol.<br>2. Rhaid meddu ar sgiliau cyfathrebu da yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br>3. Rhaid bod ag ymwybyddiaeth o ddelfrydau ac amcanion Urdd Gobaith Cymru a gweledigaeth parthed lledaenu'r iaith Gymraeg i blant a phobl ifanc Cymru. | 1. Profiad gwaith neu gwirfoddoli yn y maes Celfyddydau.<br>2. Profiad a/neu gymhwyster mewn gwaith ieuenctid (cynigir cwrs penodol Agored Cymru Lefel 2 sydd yn arwain at gwblhau Tystysgrif Lefel 3 Ymarfer Gwaith Ieuenctid 3 onid yw'r ymgeisydd llwyddiannus eisoes yn meddu'r cymhwyster neu gymhwyster gwaith ieuenctid uwch).<br>3. Dealltwriaeth o hawliau plant a phobl Ifanc. |

4. Person brwdfrydig, egnïol, a chreadigol i godi diddordeb yng ngweithgareddau'r Urdd yn y r rhanbarth.
5. Tystiolaeth o allu blaenoriaethu a rhoi trefn ar waith yn annibynnol.
6. Bod â thrwydded yrru llawn a defnydd o gar.
7. Profiad o drefnu a chydlynu prosiectau.
8. Bod a phrofiad o ddefnyddio platfformau digidol i gynnig gweithgareddau i blant a phobl ifanc a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo gweithgareddau.

---

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad**: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

---

**Hyblygrwydd**: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

---

**Adolygiad**: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Ionawr 2026 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

---

**Gofynion**: Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn hyblyg i weithio gyda'r nosau ac ar benwythnosau yn ôl yr angen.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus berchnogi'r holl rinweddau o Egwyddorion Gweithio i'r Urdd trwy gydol eu cyflogaeth.

---

**Gwiriadau Perthnasol**: Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).

---